# Dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau adran 6

## Templed cynllunio

Mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016[1] yn gosod dyletswydd (dyletswydd adran 6) ar awdurdodau cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau yn briodol, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6, dylai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori'r angen i ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu syniadau a'u cynlluniau busnes cychwynnol, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau beunyddiol.

Yn rhan o'r ddyletswydd adran 6, rhaid i awdurdod cyhoeddus nad yw'n un o Weinidogion y Goron neu un o adrannau'r llywodraeth baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd.

Nid yw'r templed cynllunio hwn yn orfodol, ond mae wedi'i lunio i gynorthwyo awdurdodau cyhoeddus i baratoi eu cynllun adran 6 a'u helpu i ystyried pa gamau y gallant eu cymryd. O ystyried yr amrediad eang o awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd Adran 6, ni fydd pob sefydliad yn gallu ymgymryd â phob cam a restrir yn y templed. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr, a gall awdurdodau nodi camau ychwanegol perthnasol nad ydynt wedi'u cynnwys. Gellir ymgorffori'r rhain hefyd yn eu cynlluniau.

Mae'r templed hwn wedi'i strwythuro o amgylch y chwe nod a fydd yn rhan o Gynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru ar ei wedd newydd, a fydd yn disodli'r chwe nod yn y cynllun presennol[2]

Gall pob sefydliad wneud cyfraniad cadarnhaol at gynnal a gwella bioamrywiaeth, gan nad oes rhaid i weithgareddau fod yn seiliedig ar reoli mannau gwyrdd yn unig. Er enghraifft, bydd mabwysiadu polisïau caffael a theithio cynaliadwy, ailgylchu, a lleihau'r defnydd o ynni, i gyd o fudd i fioamrywiaeth, a gellir eu cynnwys yn y cynllun adran 6.

Er mwyn helpu i lywio camau gweithredu, mae Tabl 1 isod yn rhannu awdurdodau cyhoeddus yn dri grŵp yn seiliedig ar eu swyddogaethau.

Ni ddylai'r gofyniad cynllunio fod yn feichus a dylai gyfateb i faint a natur eich sefydliad, o ran y gweithgareddau bioamrywiaeth y mae'n eu cynnal.

---

[1] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

[2] Cynllun Gweithredu Adfer Natur | LLYW.CYMRU

Mae rhagor o wybodaeth am y camau y gall awdurdodau cyhoeddus eu cymryd i helpu bioamrywiaeth a chanllawiau eraill adran 6 ar gael ar wefannau Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

**Tabl 1: Mathau o sefydliadau a gweithgareddau adran 6 posibl sy'n gymesur â'u swyddogaethau**

| Grŵp | Disgrifiad o'r sefydliad mewn perthynas â bioamrywiaeth.<br><br>Sefydliadau: | Gweithgareddau gofynnol | Enghreifftiau | Nod yr NRAP (Cynllun Gweithredu Adfer Natur) ar gyfer Cynllunio |
|---|---|---|---|---|
| **1** | • sy'n meddiannu neu'n berchen ar adeilad swyddfa yn unig ac<br>• nad yw eu swyddogaethau yn uniongyrchol gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir. | Gweithgareddau sy'n gysylltiedig â rheoli adeiladau, caffael, cynaliadwyedd, codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant, neu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill | Comisiynau, DVLA, Byrddau Iechyd | Nodau'r NRAP: 3, 4, 5 |
| **2** | • sy'n meddiannu, yn rheoli neu'n berchen ar eu hadeiladau a'u tiroedd eu hunain,<br>• mae eu swyddogaethau'n gysylltiedig â bioamrywiaeth a/neu reoli tir, neu<br>• a all ddylanwadu ar y rhai sy'n rheoli neu'n berchen ar dir. | Yr un fath â Grŵp 1 uchod YN OGYSTAL Â rheoli tir, rhaeadru cyllid â meini prawf bioamrywiaeth, darparu addysg a hyfforddiant | Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgolion a Chwaraeon Cymru. | Nodau'r NRAP: 3, 4, 5 fel yr uchod<br><br>Nodau'r NRAP: 1, 2, 6 mewn perthynas â'u tiroedd eu hunain |
| **3** | • sy'n berchen ar dir neu'n rheoli tir y tu hwnt i'w hadeiladau, p'un a oes cysylltiad rhwng eu gwaith a bioamrywiaeth a/neu reoli tir neu beidio. | Yr un fath â Grwpiau 1 a 2 uchod YN OGYSTAL Â rheoli tir i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. | Dŵr Cymru, Awdurdodau Lleol, CNC, Llywodraeth Cymru | Holl nodau'r NRAP |

| |
|---|
| ***Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6***<br><br>***Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau***<br><br>***Plan 20--*** |
| **Enw'r Awdurdod Cyhoeddus** |
| **Cyflwyniad a Chyd-destun**<br><br>**Dylid cynnwys:**<br><br>• Disgrifiad byr o'r Awdurdod Cyhoeddus, ei swyddogaethau a'i gyd-destun mewn perthynas â<br>- bioamrywiaeth (gweler Tabl 1 uchod) – *categori grŵp*<br>- maint a lle gofodol, a<br>- darparu gwasanaethau cyhoeddus (er enghraifft, os yw'r sefydliad yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG), sut mae'n gysylltiedig â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, cynlluniau llesiant, rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR) a datganiadau ardal).<br><br>• Sut mae gwella bioamrywiaeth yn cyfrannu at swyddogaethau ac amcanion strategol eich sefydliad a sut mae'n effeithio arnynt. Ar gyfer cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf WFG, sut mae'r ddyletswydd yn gysylltiedig â chyflawni'r nodau, yn enwedig ar gyfer Cymru Wydn a'r p ffordd o weithio.<br><br>• Polisïau allweddol, amcanion, dangosyddion perfformiad a threfniadau monitro.<br><br>• Trefniadau llywodraethu ynghylch cyflawni'r ddyletswydd adran 6 yn eich sefydliad, gan gynnwys cyfeirio at eich cynllun adran 6. |
| **Cynllun Gweithredu** |
| **Nod 1 yr NRAP: Amddiffyn, adfer a rheoli ecosystemau yn effeithiol er mwyn meithrin eu cydnerthedd.**<br><br>**Dylid cynnwys camau gweithredu a fydd yn gwneud y canlynol:**<br><br>• Creu neu gyfrannu at Rwydweithiau[3] Ecolegol Cydnerth er enghraifft drwy:<br><br>- Adfer a/neu greu cynefinoedd<br>- Cysylltu neu ehangu ardaloedd o gynefin<br>- Gwella rheolaeth a/neu amrywiaeth ardaloedd cynefin megis drwy newidiadau i drefniadau torri gwair |

[3] Rhwydweithiau o gynefin mewn cyflwr ecolegol da sy'n cyfuno safleoedd dynodedig a mannau bioamrywiaeth poblogaidd eraill i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i fioamrywiaeth a'n lles.

| |
|---|
| - Cyfrannu tystiolaeth at y cyfleoedd a ddangosir mewn datganiadau ardal ac ystyried y cyfleoedd hyn<br>- Diogelu rhywogaethau a restrir ar restrau bioamrywiaeth adran 7<br><br>**Ffactorau eraill i'w hystyried ar gyfer mesuriadau a/neu ddangosyddion posibl, wedi'u monitro neu eu casglu, er enghraifft:**<br><br>- Asesiadau Seilwaith Gwyrdd wedi'u cwblhau pan fydd hynny'n[4] berthnasol<br>- Ardal o gynefin wedi'i chreu wedi'i hadfer neu y daethpwyd â hi o dan reolaeth well<br>- Ardal o gynefin wedi'i cholli<br>- Prosiectau i cyfuno ardaloedd cynefin â'i gilydd<br><br>• **Gwybodaeth ychwanegol:** Dylid cynnwys gwybodaeth ychwanegol yma fel costau, manteision, effeithiau a chanlyniadau ar gyfer gweithredu sy'n berthnasol i nod hwn yr NRAP.<br><br>• **Naratif / graffigau:** Dylid cynnwys naratif byr yma ac unrhyw graffigau sy'n disgrifio'r wybodaeth rydych wedi'i chynnwys o dan yr amcan hwn. |
| **Nod 2 yr NRAP: Diogelu rhywogaethau a gwella eu rheolaeth.**<br><br>**Dylid cynnwys camau gweithredu a fydd yn gwneud y canlynol:**<br><br>• Diogelu rhywogaethau, er enghraifft drwy:<br><br>- Ddarparu cynefinoedd addas a reolir yn briodol ar gyfer rhywogaethau a warchodir pan fydd hynny'n bosibl<br>- Gwella rheoli cynefinoedd, er enghraifft, ar gyfer peillwyr megis drwy newidiadau i drefniadau torri gwair<br>- Defnyddio'r system gynllunio i gynnal a gwella rhywogaethau a chynefinoedd<br>- Diogelu rhywogaethau a restrir ar restrau bioamrywiaeth adran 7<br>- Cyfrannu at reoli safleoedd a rhywogaethau gwarchodedig, gan gynnwys<br><br>Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol/Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINCs), er enghraifft drwy:<br><br>- Sicrhau bod y safleoedd hyn yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau<br>- Cyfrannu at eu rheoli pan fydd modd<br>- Rheoli tir o'u cwmpas i'w clustogi a'u cyfuno fel rhan o rwydweithiau ecolegol gwydn. |

[4] Gellir dod o hyd i wybodaeth am Asesiadau Seilwaith Gwyrdd yn adran 6.2 o Bolisi Cynllunio Cymru.

| |
|---|
| **Ffactorau eraill i'w hystyried ar gyfer mesuriadau a/neu ddangosyddion posibl, wedi'u monitro neu eu casglu, er enghraifft:**<br><br>- Nifer y safleoedd, y rhywogaethau a/neu'r cynlluniau gweithredu cynefinoedd<br>- Statws a thueddiadau safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd, gan gynnwys unrhyw golledion hysbys yn eich ardal mae gennych ddylanwad arni<br>- Data o Gynllunio mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol[5] pan fydd hynny'n berthnasol<br>- Arolygon cyflwr<br><br>• **Gwybodaeth ychwanegol:** Dylid cynnwys gwybodaeth ychwanegol yma megis costau, manteision, effeithiau a chanlyniadau posibl ar gyfer gweithredu sy'n berthnasol i nod hwn yr NRAP.<br><br>• **Naratif / graffigau:** Dylid cynnwys naratif byr yma ac unrhyw graffigau sy'n disgrifio'r wybodaeth rydych wedi'i chynnwys o dan y nod hwn. |
| **Nod 3 yr NRAP: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau.**<br><br>**Dylid cynnwys camau gweithredu a fydd yn gwneud y canlynol:**<br><br>• Mynd i'r afael â'r prif bwysau, er enghraifft drwy:<br><br>- Leihau neu, pan fydd modd, roi'r gorau i ddefnyddio plaladdwyr a chwynladdwyr<br>- Lleihau effeithiau negyddol rhywogaethau estron goresgynnol.<br>- Defnyddio llai o adnoddau, ailddefnyddio ac ailgylchu adnoddau<br>- Lliniaru newid yn yr hinsawdd/datgarboneiddio<br><br>• Ystyried defnyddio atebion bioamrywiol a brodorol sy'n seiliedig ar natur lle bynnag y bo modd, er enghraifft drwy:<br><br>- Osod systemau draenio trefol cynaliadwy<br>- Defnyddio seilwaith gwyrdd a glas trefol bioamrywiol brodorol i reoli tymheredd, llif dŵr, erydu pridd – gan gynnwys plannu coed, glaswelltiroedd a gwlyptiroedd<br>- Gosod toeau a waliau gwyrdd<br>- Defnyddio mesurau atal llifogydd naturiol, fel pantiau a gwlyptiroedd<br>- Darparu mannau gwyrdd lleol i gymunedau ac ymwelwyr i wella canlyniadau iechyd a lles<br><br>**Ffactorau eraill i'w hystyried ar gyfer mesuriadau a/neu ddangosyddion posibl, wedi'u monitro neu eu casglu, er enghraifft:**<br><br>- Gwella ansawdd aer/pridd/dŵr<br>- Lleihau defnyddio plaladdwyr, chwynladdwyr a chynhyrchion/arferion eraill sy'n peri risg i fioamrywiaeth |

[5] Mae gwybodaeth am Adroddiadau Monitro Blynyddol ar gael ym mharagraff 6.2.12 o Bolisi Cynllunio Cymru

- Cyflwyno polisïau i leihau'r pwysau ar rywogaethau e.e. cynaliadwyedd olew palmwydd
- Defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur
- Ardaloedd o Rywogaethau Estron Goresgynnol y gellid eu lleihau neu eu rheoli

**Gwybodaeth ychwanegol**: Dylid cynnwys gwybodaeth ychwanegol yma megis effeithiau ar gostau, manteision a chanlyniadau posibl ar gyfer gweithredu sy'n berthnasol i nod hwn yr NRAP.

- **Naratif / graffigau:** Dylid cynnwys naratif byr yma ac unrhyw graffigau sy'n disgrifio'r wybodaeth rydych wedi'i chynnwys o dan y nod hwn.

**Nod 4 yr NRAP: Sefydlu llywodraethu effeithiol a chapasiti i gyflawni.**

**Dylid cynnwys camau gweithredu a fydd yn gwneud y canlynol:**

- Sicrhau llywodraethu ar gyfer bioamrywiaeth yn eich sefydliad, er enghraifft drwy:
  - Sicrhau bod rhywun yn gyfrifol am gamau gweithredu bioamrywiaeth – yn y pen draw y bwrdd neu brif weithredwr y sefydliad a ddylai wneud hyn
  - Sicrhau bod y ddyletswydd adran 6 yn cael ei monitro a'i hadolygu
- Darparu capasiti ar gyfer bioamrywiaeth, er enghraifft drwy:
  - Sicrhau y gellir cael arbenigedd ecolegol pan fydd angen, naill ai'n fewnol neu'n allanol
  - Annog a chefnogi cyfranogi gan wirfoddolwyr mewn gweithredu dros fioamrywiaeth gan staff neu gymunedau lleol
- Cefnogi gweithredu bioamrywiaeth drwy gyllid a/neu bartneriaethau, er enghraifft drwy:
  - Grantiau sy'n cynorthwyo neu'n ariannu prosiectau bioamrywiaeth
  - Gweithio gyda Phartneriaethau Natur Lleol a Chynlluniau Gweithredu ar y cyd â sefydliadau eraill
  - Cefnogi sefydliadau a phrosiectau amgylcheddol eraill

**Ffactorau eraill i'w hystyried ar gyfer mesuriadau a/neu ddangosyddion posibl, wedi'u monitro neu eu casglu, er enghraifft:**

- Cynnal diwrnodau gwirfoddoli natur perthnasol.
- Cynlluniau grant a buddsoddi y gellid eu hariannu i annog camau gweithredu bioamrywiaeth.
- Gwelliannau capasiti perthnasol – staff newydd wedi'u cyflogi, boed yn llawnamser neu rhan-amser a all gyfrannu at gamau gweithredu bioamrywiaeth

- Rhestr o ffynonellau cyllid wedi'u hanelu at fioamrywiaeth
- Rhestr o grwpiau amgylcheddol lleol/cenedlaethol sy'n gwneud cyfraniad sylweddol a/neu'n cael eu cefnogi

- **Gwybodaeth ychwanegol:** Dylid cynnwys gwybodaeth ychwanegol yma megis effeithiau ar gostau, manteision a chanlyniadau posibl ar gyfer gweithredu sy'n berthnasol i nod hwn yr NRAP.

- **Naratif / graffigau:** Dylid cynnwys naratif byr yma ac unrhyw graffigau sy'n disgrifio'r wybodaeth rydych wedi'i chynnwys o dan y nod hwn.

**Nod 5 yr NRAP: Ymgorffori bioamrywiaeth drwy ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau effeithiol ar bob lefel.**

**Ystyried camau y gellir eu cymryd i:**

- Ymgorffori gweithredu bioamrywiaeth ar draws swyddogaethau eich sefydliad, er enghraifft drwy:

  - Wneud ymrwymiadau mewn cynlluniau corfforaethol
  - Ymgorffori bioamrywiaeth a'r ddyletswydd adran 6 mewn rheoli perfformiad, drwy Ddatganiadau Amgylcheddol, Cynlluniau Lles Lleol, Datganiadau Lles, asesiadau effaith, cynllunio busnes a monitro cyllideb, systemau rheoli perfformiad, ymgynghoriadau mewnol neu archwiliadau
  - Gwerthfawrogi bioamrywiaeth yn fwy effeithiol ac ar gyfer y tymor hwy wrth wneud penderfyniadau
  - Sicrhau bod swyddogaethau ar draws eich sefydliad yn gweithredu er budd bioamrywiaeth o ddydd i ddydd

- Codi ymwybyddiaeth ar draws eich sefydliad, er enghraifft drwy:

  - Ddarparu modiwlau hyfforddi gorfodol neu wirfoddol
  - Cynnal seminarau neu ddarparu gwybodaeth i dynnu sylw at bwysigrwydd a gwerth bioamrywiaeth a sut rydych yn cyfrannu at weithredu fel sefydliad
  - Ymgorffori hyfforddiant fel rhan o'r broses ymgynefino

**Ystyried unrhyw fesurau a dangosyddion y gellid eu defnyddio ar gyfer monitro, er enghraifft:**

- polisïau y gellid eu newid i ymgorffori bioamrywiaeth
- Dulliau neu dechnegau asesu bioamrywiaeth wedi'u treialu
- Rhestr o fentrau hyfforddi/codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a manylion pellach
- Nifer y staff wedi derbyn hyfforddiant

- **Gwybodaeth ychwanegol:** Dylid cynnwys gwybodaeth ychwanegol yma fel costau, manteision, effeithiau a chanlyniadau ar gyfer gweithredu sy'n berthnasol i nod hwn yr NRAP.

- **Naratif / graffigau:** Dylid cynnwys naratif byr yma ac unrhyw graffigau sy'n disgrifio'r wybodaeth rydych wedi'i chynnwys o dan y nod hwn.

**Nod 6 yr NRAP: Gwella ein tystiolaeth a'n gwaith monitro**

**Ystyried camau y gellir eu cymryd i:**

- Ddefnyddio tystiolaeth yn well wrth wneud penderfyniadau, er enghraifft drwy:

  - Gasglu a rhannu tystiolaeth
  - Defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael ar gyfer gwneud penderfyniadau, er enghraifft defnyddio data'r Ganolfan Cofnodion Amgylchedd Lleol mewn penderfyniadau cynllunio
  - Ar ôl ystyried y rhestrau o rywogaethau a chynefinoedd yn adran 7, yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r Datganiadau Ardal
  - Ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol/defnyddio mewnbwn arbenigol
  - Monitro canlyniadau
  - Nodi bylchau yn y dystiolaeth.
  - Gwneud ymchwil

- Ceisio rhannu tystiolaeth mewn ffordd hygyrch, er enghraifft drwy

  - Sicrhau bod data ar gael drwy Ganolfannau Cofnodion Amgylchedd Lleol
  - Sicrhau bod eich tystiolaeth amgylcheddol yn hygyrch i gymunedau lleol

**Ystyried unrhyw fesurau a dangosyddion y gellid eu defnyddio ar gyfer monitro, er enghraifft:**

- Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Ganolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol briodol
- Ffynonellau data wedi'u creu neu eu gwella mewn perthynas â diogelu rhywogaethau/cynefinoedd o'r pwys mwyaf brif (rhestrau adran 7)
- Ffynonellau data wedi'u creu neu eu gwella mewn perthynas â rhwydweithiau ecolegol cydnerth
- Penderfyniadau cynllunio wedi'u gwneud gan ddefnyddio tystiolaeth bioamrywiaeth e.e. nifer y ceisiadau cynllunio a effeithiodd ar safleoedd dynodedig lleol neu genedlaethol, Rhywogaethau Ewropeaidd a Warchodir (EPS) neu rywogaethau adran 7, nifer y ceisiadau wedi'u gwrthod oherwydd yr effaith ar safleoedd dynodedig lleol neu genedlaethol, cynefinoedd neu Rywogaethau Ewropeaidd a Warchodir neu rywogaethau adran 7

- **Gwybodaeth ychwanegol:** Dylid cynnwys manylion yma fel costau, manteision, effeithiau a chanlyniadau ar gyfer gweithredu sy'n berthnasol i'r nod hwn yr NRAP.

- **Naratif / graffigau:** Dylid cynnwys naratif byr yma ac unrhyw graffigau sy'n disgrifio'r wybodaeth rydych wedi'i chynnwys o dan y nod hwn.